

Mewnosodiadau* a throsgaenau*



Beth ydyn nhw?

Gellwch weithiau gael mewnosodiadau a throsgaenau yn lle llenwadau* i drwsio dannedd wedi'u difrodi*. Mae llenwadau, ar y dechrau, yn feddal ac wedi eu mowldio yn y dant sydd wedi cael ei siapio i dderbyn a dal y llenwad. Mae mewnosodiadau a throsgaenau'n cael eu gwneud y tu allan i'r geg, fel arfer mewn labordy deintyddol, ac wedyn yn cael eu glynu wrth y dant yn y ddeintyddfa.

Mae mewnosodiad yn eistedd mewn twll yn y dant. Mae trosgaen yn gorwedd ar y dant ac yn adeiladu ar ei siâp. Gall y ddau fod wedi cael eu gwneud o borslen lliw dant, o aur neu o ddeunydd llenwi cyfansawdd* gwyn. Mae deunyddiau gwahanol yn fwy addas ar gyfer gwahanol rannau o'r geg a gwahanol rannau o'r dannedd.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Bydd eich deintydd yn:

- rhoi anesthetig lleol i chi fel arfer i wneud o gwmpas y dant yn ddideimlad.
- tynnu allan unrhyw hen ddeunydd llenwi neu ddant wedi pydru neu wedi'i ddifrodi.
- defnyddio deunydd tebyg i bwti i wneud copi o siâp y dant sy'n cael ei drwsio a'r dannedd o'i amgylch – 'cymryd argraff'* ydi'r enw ar hyn.
- rhoi'r 'argraff' i dechnegydd deintyddol er mwyn iddo wneud y mewnosodiad neu'r trosgaen.
- defnyddio llenwad dros dro i amddiffyn y dant sy'n cael ei drwsio, tra byddwch chi'n disgwyl am y mewnosodiad neu'r trosgaen.
- gludo'r mewnosodiad neu'r trosgaen yn ei le ar eich ymweliad nesaf – efallai y bydd y deintydd yn gwneud mân newidiadau fel bod y dant yn gyfforddus i frathu arno.

Beth ydi'r manteision?

- Mae mewnosodiadau a throsgaenau'n gryf ac yn gallu para'n hirach na llenwadau.
- Maent yn arbennig o addas ar gyfer arwyneb brathu'r dannedd ôl ac ar gyfer atgyweiriadau mawr i'r dannedd blaen, lle mae'n anodd gwneud i lenwad gwyn edrych yn naturiol.
- Bydd eich deintydd yn gallu gwneud i'r lliw gydweddu â lliw eich dannedd eraill.

GEIRFA: **argraff(au)** = *impression(s)*; **cyfansawdd** = *composite*; **difrodi** = *to damage*; **llenwad(au)** = *filling(s)*; **mewnosodiad(au)** = *inlay(s)*; **trosgaen(au)** = *onlay(s)*